OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 191

# Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

## RHAN 10

## GRANTIAU AT DEITHIO

**Grant at deithio ar gyfer myfyrwyr meddygol**

**65.**—(1) Mae grant at deithio ar gael i fyfyriwr cymwys os yw'r amodau a ganlyn wedi eu bodloni—

*Amod 1*

Mae'r cwrs presennol yn gwrs llawnamser mewn—

(a) meddygaeth, neu

(b) deintyddiaeth,

y mae rhan angenrheidiol ohono yn gyfnod o astudio ar ffurf hyfforddiant clinigol.

*Amod 2*

Yn y flwyddyn academaidd o dan sylw, mae'n ofynnol i'r myfyriwr cymwys fynd i wariant at ddiben bod yn bresennol mewn—

(a) ysbyty, neu

(b) mangre arall,

yn y Deyrnas Unedig (nad yw'n rhan o'r sefydliad sy'n darparu'r cwrs presennol) er mwyn ymgymryd â hyfforddiant clinigol fel rhan o'r cwrs.

*Amod 3*

Nid yw'r flwyddyn academaidd yn flwyddyn y mae'r myfyriwr yn gymwys i wneud cais mewn cysylltiad â hi am—

(a) bwrsari gofal iechyd, neu

(b) lwfans gofal iechyd yr Alban,

a gyfrifir drwy gyfeirio at incwm y myfyriwr (pa un a yw swm y cyfrifiad yn cyfateb i ddim ai peidio).

(2) Ond nid yw grant at deithio ar gael pan fo'r myfyriwr cymwys yn fyfyriwr cymwys Categori 6 yn rhinwedd paragraff 6(1) o Atodlen 2 yn unig ac nid yw'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r categorïau eraill o fyfyrwyr cymwys a bennir yn yr Atodlen honno.

(3) Swm y grant at deithio sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd yw'r swm y penderfynir arno gan Weinidogion Cymru fel a ganlyn—

*Cam 1*

Penderfynu ar swm y gwariant rhesymol y mae'r myfyriwr cymwys yn mynd iddo yn y flwyddyn academaidd o dan sylw at y diben a grybwyllir yn Amod 2 o baragraff (1) (gan gynnwys gwariant yr eir iddo at y diben hwnnw cyn neu ar ôl bod yn bresennol yn yr ysbyty neu yn y fangre arall).

*Cam 2*

Os yw incwm aelwyd y myfyriwr cymwys (gweler Atodlen 3) yn £59,200 neu lai mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno, didynnu £303 o'r swm a geir yng Ngham 1.

Os yw incwm aelwyd y myfyriwr cymwys yn fwy na £59,200 mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno, didynnu £1,000 o'r swm a geir yng Ngham 1.

Y canlyniad yw swm y grant at deithio sy'n daladwy.

(4) Nid yw gwariant yr eir iddo at ddiben cyfnod o astudio preswyl i ffwrdd o'r sefydliad sy'n darparu'r cwrs presennol yn wariant yr eir iddo at y diben a grybwyllir yn Amod 2 o baragraff (1).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 65 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 12/03/2018. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.